
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 39. RHIF 11 EBRILL 2018 50c

# DYSGWR DYFAL

*Un o'r dysgwyr dygn a ddaw i Ddosbarthiadau Cymraeg Canolfan Bethel, ger Penny Lane yw Peter Williams. Daw yr holl ffordd, er ei gloffni, o Newton-le-Willows, ac y mae ei wreiddiau yn ddwfn. Brawd ei daid oedd y llenor a'r bardd Parchedig Hugh Williams (Hywel Cernyw: 1843-1937), Corwen. Diolch am ei ddyfalbarhad, ei ddycnwch, a'i gefnogaeth i'r Gymraeg.*



*Peter Williams yn disgwyl trên*



*Peter Williams yn ei Gadair yn y Ganolfan*

# IEUENCTID YN LLAWN ASBRI

***Myfyrwyr Cymraeg Prifysgolion Lerpwl yn hysbysebu y Gymdeithas mewn ffair 'freshars'. Gweler erthygl Chris Windsor ar dudalen 12***




**YN Y RHIFYN HWN -**
Golygyddol
(Panic ac eira arDdydd Dewi)
Newyddion Bethel, Bethania, Seion, Cymry Birkenhead a Cymry Lerpwl.
Gweithtio'n galed yn y Ganolfan.
Cyngerdd Manceinion.
Byd a Phobl a ddiflannodd o gefn gwlad.

Golygyddol

# PANIC AC EIRA AR DDYDD DEWI – *gan D. Ben Rees*

Mae'n ddiwrnod gosod *Yr Angor* yn ei wely, hen ddefod y bûm yn ei chyflawni am bron i 49 o flynyddoedd. Ac eleni y mae'r dyddiad cau am rifyn Ebrill ar Ddydd Gŵyl Ddewi, diwrnod pwysig yn ein calendr. Ond rhan amlaf, bron bob tro, cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi Cymry Lerpwl, nid ar noson yr Ŵyl, ond ar Nos Sadwrn cyn Mawrth y cyntaf neu y nos Sadwrn ar ôl hynny. Mentrodd y Pwyllgor y tro hwn fynd am 1 Mawrth ond bu hynny yn drychineb o'r mwyaf gan i'r Bwgan mawr yn Siberia anfon ei gynddaredd arnon nes llethu sustem drafnidiaeth gyhoeddus Prydain Fawr. Ac eleni bu Pwyllgor y Cinio Cymdeithas Lenyddol Bethel mor uchelgeisiol â gwahodd seleb o fyd teledu ac actio Wynford Ellis Owen i ddod atom. Y mae Wynford yn byw yn Creigiau, ger Caerdydd, bron i ddau gan milltir i ffwrdd. Ond hyd Chwefror 27 nid oedd angen poeni, ond wedyn fe ddaeth y bluen eira i'n blino, ac erbyn Noswyl Gŵyl Ddewi yr oedd hi'n banig llwyr. Ni allai S4C na *Newyddion Naw* hyd yn oed gofio Dydd Gŵyl Dewi, dim ond eira oedd ar ei meddyliau, a diffyg cyfathrach rhwng Caerdydd â Lerpwl o ran y trenau a'r ffyrdd o dan gawodydd o eira. Yr oedd Wynford wedi fy rhybuddio nad oedd yn gyrru car ar hyn o bryd, yn dibynnu ar y relwe a'r trenau, a thruan ohono a'i briod Meira oedd am ddod yn ôl i'n plith gan fod gennym atgofion melys iawn amdani yn niwedd y chwedegau. Deg o'r gloch bore Iau Gŵyl Ddewi daeth Wynford ar y ffôn i ddweud nad oedd modd dod i Lerpwl oherwydd fod y trenau ddim am fentro, ac ni welaf fai o gwbl arnynt.

Panic! Beth a wnawn? Wel mentro gan fod gyda ni ddigon i'w ddathlu a gan wybod fod ein trefnyddion wedi gwneud ei gorau a fod gennym destun cân yn Dewi Sant. Ef yw ein Nawddsant. Anamal y cewch chwi ŵr neu wraig wadd yn sôn amdano. Gan fy mod yn llywyddu bydd hi'n ofynnol i mi ymhelaethu am ddeg munud arall a dyna'r noson fawr drosodd a phawb wedi cael ei weddill a'i wala. Pawb ohonom yn ddiolchgar am Dewi. Dywed rhai a ddaw i annerch na wyddan nhw ddim amdano. Ffolineb mawr. Y mae gen i amcan da beth oedd enw ei fam a'i dad. Mi wn pwy a'i dysgodd ac ym mha le oedd lleoliad yr ysgol. Yr wyf yn gwybod beth oedd ei waith, sant o ddyn oedd o, ac yr wyf yn gwybod am ei gyfraniad i genedl y Cymry ar ddechrau ei bodolaeth fel cenedl. Dyn da oedd Dewi. Esiampl i bawb ohonom. Fe gafodd fyw mewn cyfnod mawr yn hanes Cymru a'n cenedl, y bumed a'r chweched ganrif o oes Crist. Ac felly iaith diolch fydd yr iaith, ac adroddaf i ddiweddu englyn O. M. Lloyd.

*I beth y rhuthrasom drwy'r byd – gwirionedd yw*
*Gyrru'n wyllt drwy fywyd;*
*Daw blino brysio ryw bryd*
*A daw sefyll disyfyd.*

## APÊL YR ANGOR AR GYFER DATHLIAD Y DEUGAIN MLYNEDD O'R PAPUR BRO, MEHEFIN 2019

**Diolchir i'r canlynol am y gefnogaeth a dderbyniwyd hyd yn hyn ac a ddeilliodd fel canlyniad i'r Apêl.**

| | | |
|---|---|---|
| **A)** | **Rhestr Cyfrol 39, Rhif 9 Chwefror 2018** | |
| | 12 o roddion | £2,050 |
| **B)** | **Rhestr Mawrth 2018** | |
| | 4 o roddion | £590 |
| **C)** | **Rhestr Ebrill 2018** | |
| 1. | Eurfryn a Siân Davies, Llandegfan, Môn | £360 |
| 2. | John C. Thomas, Allerton, Lerpwl | £180 |
| 3. | Elisabeth Owen, Halewood, Lerpwl | £180 |
| 4. | Clifford a Myfanwy Owen, Llanfairfechan | £180 |
| | | **£900** |

**Cyfanswm hyd at 1/3/2018 £3,540**

Mae'n bosibl i wneud taliad am unrhyw swm i fyny i'r adeg pan y bydd yr Apêl yn dirwyn i ben, ym mis Mehefin 2019. Yn ein Pwyllgor Gwaith fe glustnodwyd **Sadwrn, 29 Mehefin a Sul, 30 Mehefin 2019 fel dyddiad i ddathlu Deugain Mlynedd yr Angor. Yr ydym am Ddathlu yn deilwng am nifer o resymau unigryw.** Cadwch y dyddiad yn rhydd.

i) Dyma'r unig bapur bro a'r cyfan yn Gymraeg sydd wedi ymddangos y tu allan i Gymru am gyfnod mor hir. Ni cheir hyn mewn unrhyw ddinas arall yn Lloegr (e.e. Llundain, Birmingham, Bryste ac ati).

ii) Bu'r papur bro o dan olygyddiaeth un person trwy'r cyfnod ac mae hynny yn ffenomenon go arbennig yn hanes papurau bro.

iii) Pan ddaw *Cyfrol y Dathlu* allan fe welir fod y cynnyrch helaeth o'r rhifynnau wedi ei ysgrifennu gan Gymry yn byw yn Lerpwl, Cilgwri, Manceinion, talgyrch *Yr Angor.*

Gellwch gysylltu gyda fi unrhyw adeg a byddaf yn barod iawn, a hefyd ein Trysorydd i dderbyn unrhyw rodd tuag at Ŵyl yr Angor a ddymunir ei roddi.

*Gyda diolch,*
*Dr John G. Williams*
*(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Angor)*

# CORNEL Y TRYSORYDD
## ERBILL 2018



| | |
|---|---|
| Mrs Menai Roberts, Newcastle Under Lyme | £20.00 |
| Mrs Angharad Eastwood, Cressington | £10.00 |
| Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth | £50.00 |
| Mr Michael Jones, Caer | £12.00 |
| Dr Arwel Roberts, Ormskirk | £20.00 |
| Mrs Sian Spink, Newton le Willows | £10.00 |
| Dr a Mrs John Wiliams, Allerton, Lerpwl | £100.00 |
| Mrs Beryl M. Jones, Welwyn Garden City | £60.00 |
| Mrs Undeg Cole, West Cross, Abertawe | £11.00 |

**Cyfanswm £293.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Capel Bethania, Crosby Road South, Lerpwl

Newydd da ydyw clywed fod y gyfrof hardd a difyr *Cylch yr Amserau/Circle of Time* a gyhoeddwyd yn 2013 yn cael ei ailargraffu gan Wasg Cyhoeddiadau Modern. Gwerthwyd y gyfrol ddwyieithog gyntaf a gan fod galw amdani o hyd penderfynwyd ail fentro gan fod cyfraniadau o ewyllys Miss Kitty Roberts a Chronfa Coffa Dewi Sant yn gwarantu cyhoeddi mis Mai eleni. Bwriadwn roddi gwybod yn y rhifyn nesaf o'r *Angor* pa bryd y bydd y gyfrol hardd hon ar gael. Diolchwn i'r awdur am groniclo hanes y Cymry yn ardaloedd Bootle, Waterloo a Gogledd Lerpwl o ran y Presbyteriaid Cymraeg.

Braf oedd cael oedfa Undebol ar Sul olaf ym mis Chwefror yn Eglwys Crist a hynny ar ymddeoliad Esgob Anglicanaidd Warrington, yr Esgob Richard. Ef oedd yn bregethwr ar yr amgylchiad pwysig hwn. Croesawyd pawb ynghyd gan y Parchedig Greg Cuff, y ficer, a darllenwyd yr Ysgrythur o'r Testament Newydd (Rhufeiniaid 4: 13-25) gan ein Gweinidog, Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Bydd Bethania ag Eglwys Christ Church yn uno yn y litwrgi o leiaf unwaith y flwyddyn, ond eleni cawn gyfarfod ddwywaith ar y cyd. Edrychwn ymlaen i gael cyfarfyddiad undebol eto yn y dyfodol agos.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cawsom gyfnod anodd ers dechrau'r flwyddyn oherwydd gwaeledd dwy chwaer a fu'n arwain mor gydwybodol. Anfonwn ein cofion at Miss Iris Hughes-Jones, Wallasey sydd yn derbyn gofal ei brawd, ac i Mrs Mair Rees Jones a fu am gyfnod yn Ysbyty Arrowe Park ond bellach adref yn Claughton. Deil yr eglwys i dderbyn cenhadon ar bob Sul a diolchwn i Mr. Gwyn Jones sydd yng ngofal y trefniadau angenrheidiol. Anfonwn ein cofion at Mrs Marged Jones, Rhuthun a hefyd Mrs Morfudd Williams a symudodd i gartref gofal yn Llanelwy. Y ddwy ohonynt â buddiannau Seion yn agos iawn i'w teimladau dyfnaf.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

'Sgwrs hwyliog' oedd y testun rhwng ein gweinidog Dr. D. Ben Rees a Mr Eryl Wynn Jones, Woolton, yng nghyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol ar y pumed o Chwefror. Dyna gafwyd.

Cawsom hanes ei fagwraeth yng Nghorwen, a'r dref y pryd hynny yn fyrlymus a phrysur gyda llawer o weithgareddau yn cymryd lle. Roedd hynny cyn cau stesion fawr Corwen yn 1964. Y capel Bedyddiedig oedd sylfaen ei fywyd a dylanwadodd Billy Graham yn fawr arno. Aeth i'r ysgol leol, Ysgol Sir Y Bala, i'r fyddin am dair blynedd, dim pellach nag RAF Valley. Yna Coleg Normal i'w hyfforddi yn athro. Dilynodd yr alwedigaeth honno yn teithio o wlad i wlad gyda'i wraig Mair Evans, merch o Dregaron.

Ar ôl braslun o'i gefndir bu raid iddo ateb deg cwestiwn o eiddo'r holwr.

1. *Pam dewis swydd athro yn Venezuela?* Gweld hysbyseb yn y *Teacher's World* ac awydd i weld gwledydd eraill.

2. *Ble mae eich hoff le yng Nghynru?* Llandrillo yn Rhos.

3. *Disgrifiwch eich hun mewn tri gair.* Yn swil, dim digon o Gymraeg, hoffi pobl.

4. *Pa ffilm welsoch chi ddiwethaf? Darkest Hour* – gwerth ei gweld am Churchill.

5. *Beth yw eich hoff albwm cerddorol?* Concerto gan Grieg.

6. *Pe baech yn medru bod yn rhywun arall. Pwy?* Hoffi bod yn chef – i allu coginio fel Mary Berry.

7. *Fel teithiwr byd-eang, pa un yw eich hoff ddinas yn y byd?* New Dehli.

8. *Beth sydd orau gennych* – tesctio neu ffonio? Ffonio.

9. *Pa gemau yr hoffwch wylio?* Rygbi, ond mae'r teulu i gyd yn goch – yn cefnogi tîm pêl-droed Lerpwl.

10. *Eich hoff gylchgrawn Cymraeg? Barn* yn mwynhau darllen i gael dysgu mwy o eiriau Cymraeg.



**Dr. D. Ben Rees ac Eryl Wynn Jones**



**Lilian Coulthard gyda bara brith, wedi ffilm Caradog Pritchard**

Mae Eryl yn mwynhau y cyfeillgarwch yma ym Methel, yn mynychu'r Philharmonic yn gyson a'i hoff dŷ bwyta yw'r adeilad uchaf yn y ddinas. Do, cawsom noson hwyliog dros ben, diolch i'r holwr a'i westai, cadwyd ein diddordeb i'r diwedd.

Ar Sul 11eg o Chwefror cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yr Eglwys pryd y caed adroddiadau manwl a chywir gan Dr. Pat Williams fel ysgrifennydd yr Eglwys a Dr. John Williams, trysorydd yr Eglwys. Diolch i'r ddau am gyflwyniad trylwyr ac am eu hol waith gydol y flwyddyn.

Ar y 19eg o Chwefor dangoswyd y ffilm *'Un nos oleu leuad'* yn y Gymdeithas Lenyddol. Ar y dechrau cafwyd cyflwyniad byr gan Miss Sara Williams yn egluro bod y ffilm wedi ei seilio ar nofel glasurol Caradoc Pritchard a gyhoeddwyd yn 1961. Mae'r ffilm yn portreadu, drwy atgofion dyn sy'n



***Trafodaeth wedi'r ffilm***




***Bocsys popcorn i bob un a ddaeth i weld y ffilm***

ymweld â'i hen gartref, fywyd bachgen yn tyfu i fynu mewn cartref di-freintiedig yn ardal chwareli gogledd Cymru a'i berthynas agos ond anodd â'i fam weddw a ddioddefai oddi wrth salwch meddyliol. Ar wahan i'r golygfeydd rhyfeddol mae'r ffilm yn llawn o symboliaeth ac amwysedd, gan adael nifer o gwestiynau i'w trafod. Roedd pawb wedi mwynhau'r ffilm a'r is-deitlau Saesneg o gymorth mawr i'r dysgwyr. Ar ôl sôn am waith Caradoc Pritchard fel newyddiadurwr ar y *Telegraph* yn Llundain ac am ei gyfansoddiadau barddonol a rhyddieithol yn Gymraeg, diolchodd ein gweinidog, y Parchedig D. Ben Rees am drefnu'r noson ac am ei chyflwyniad gwerthfawr, ac i Dr. John am ei ddoniau technegol yn gosod y peirianwaith mewn trefn.

Bore Chwefror 28ain daeth criw da ynghyd i lanhau'r adeiladau a pharatoi'r ystafelloedd erbyn pnawn Gwener, Mawrth yr 2il pryd y cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd o dan adain Eglwysi Undebol Mossley Hill.

Diolch am gyfraniad y dynion a fu'n paentio'r ganolfan ac yn gofalu am yr adeiladau.

Cydymdeimlwn â Dr. Huw Rees ar golli ei chwaer yn Sir Benfro. Bu yn ofalus iawn o'i deulu yn eu gwaeledd.

Mae Mr. Bill McEvoy yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl ar hyn o bryd yn derbyn profion. Dymunwn wellhad buan iddo. Cyfarchion yr Eglwys atoch chwi oll sy'n methu dilyn yr oedfaon. Byddwn yn dosbarthu'r Adroddiad Blynyddol yn nechrau mis Mawrth fel arfer eleni eto.

Dros y 18 mis diwethaf mae
***Corau Cymru***
wedi cyhoeddi 4 CD yn y gyfres
**HOFF EMYNAU**
yr un diweddaraf gan
Gôr CF1, Caerdydd.

Mae pob CD yn cynnwys i fyny at 15 o emynau poblogaidd wedi eu recordio gan gorau adnabyddus.

Ar gael yn awr am £12 ynghyd â llyfryn sy'n cynnwys y geiriau a'r tonau oddi wrth
***www.coraucymru.com***

***Myfyrdod***

# Y GRAWYS

Mae'r Grawys yn adeg o gyfle. Credaf, os ydym yn yr ysbryd mi fedrem roi ein sylw yn gyfangwbl ar y digwyddiadau mawr ym mywyd Iesu Grist. Yn ogystal, fedrem roddi eu priodoldeb i'n bywyd ni ein hunain. Dyma'r adeg i afael ar y cyfle i dyfiant ysbrydol.

Anrheg gras yw tyfiant mewn bywyd ysbrydol ond mae'r gras yn dod os ydym wedi darparu ein hunain ar ei gyfer i'w dderbyn. Credaf, yn fy henaint, nad yw bywyd defosiynol yn dibynnu ar aml eiriau mewn gweddi er enghraifft. Yn wir, dydy ansawdd bywyd ddim yn dibynnu ar nifer o oriau a munudau a rhoddir mewn gweddi a myfyrdod OND yn y modd rydym yn barod i gymeryd ac ufuddhau, yn y modd rydym yn barod i gydweddu a gwneud, yn bwysicaf fyth y modd yr ydym yn gwylio ac aros. Mae'n rhaid dweud fel Samuel gynt "Dywed, Arglwydd, mae dy was yn clywed."

Mae disgwyl a gwylio ar Dduw yn mynnu ar ddigyblaeth a chysegriad gan ganolbwyntio ar rhain ond efallai fel dywedodd Hamlet *"Ay, there's the rub"*. Mor anodd onid yw? – gan feddwl mor galed yw i ganolbwyntio ar pethau ysbrydol oherwydd yr ydym yn meddwl am y broblem o fyw – problemau fel dyledion, costau byw a phethau bi-bwys yn tynnu'n sylw. Problemau sy'n '*human*' a dim yn "bechodau". Mae disgwyl, fel dywedais, yn anodd ac fe gawn adegau mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ac mae hyn yn anodd eto i'r rhai sy'n ceisio byw i Grist. A gaf i roi profiad personol i chi?

Gweinidog gyda'r Bedyddwyr y Parch R. C. Pugh oedd yng Nghaerleon ar Wysg lle roeddwn yn y coleg hyfforddi athrawon. Yn aml fe ddaeth i'r coleg i gadw gwasanaeth ac yn aml ambell Seiat neu Cyfeillach. Dyn annwyl iawn a chyda *"broad-outlook on life"* ac yn ddiddorol dros ben. Cofiaf un tro iddo sôn am *"Waiting for God"* ac yn dweud bydd adegau'n dod pan ddaw ar draws llwybr bywyd lawer o gwestiynnau a buasai rhywun mewn penbleth pa gyfeiriad i gymeryd. Beth wnewch chi? A ddylech chi syrthio i ddyfnderodd annobaith? A ddylech chi droi'n ôl mewn llwrfdra neu ofn neu mynd ymlaen mewn anwybodaeth? Yn ostyngedig iawn fe awgrymodd ein bod yn DISGWYL mewn gweddi ac i alw ar Dduw "Ni wrthodir neb a ddaw" ac wedyn DISGWYL mewn ffydd ac i ddangos i'r Duw anfeidrol bod gennych yr hyder mwya ynddo ac eich bod yn barod i DDISGWYL mewn amynedd distaw iddo Ef. Ni anghofiaf ei eiriau olaf *"He never lets anyone down, you know"*. Cofiaf eto Pennaeth y coleg G. P. Ambrose wrth ddiolch yn dweud wrth inni fel athrawon cael ein cyffwrdd yng nghyfoeth gras ein bod wedi cael profiad bendithiol gogoneddus.

***ELWYN***

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL




***Richard Parry Jones rhwng Dr. D. B. Rees a Dr. J. G. Williams***

Yng nghyfarfod cyntaf mis Chwefror daeth Richard Parry Jones atom i sôn am ‘Cymru a Rhyfel Cartref Sbaen’. Y symbyliad am yr anerchiad oedd darllen awdl fuddugol Hywel Griffiths yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod yn 2015 sef ‘Gwe’. Mae’r awdl yn sôn am fachgen ifanc yn mynd i weld ei daid oedd yn marw yn yr ysbyty. Mae ei daid yn dechrau hel atgofion am y rhyfel cartref yn Sbaen 1936-1939 ac mae’r llanc yn edrych ar yr un pryd ar ei liniadur, ar ddelweddau cyfoes o’r gwrthdaro yn Gaza.Yn ei anerchiad mae Richard Parry Jones yn cymharu y rhyfel a fu yn Sbaen gyda’r rhyfel sydd yn mynd ymlaen heddiw yn Syria. Bu rhyfel cartref Sbaen o Gorffennaf 17eg 1936 i Ebrill 1af 1939 rhwng y gweriniaethwyr o dan arweinyddiaeth Manuel Azana a’r cenedlaetholwyr o dan arweinyddiaeth Franco. Achos y rhyfel yn Sbaen oedd tlodi, grym y tirfeddiannwyr a chrêd y cenedlaetholwyr fod y gweriniaethwyr yn bygwth grym yr Eglwys Gatholig. Heddiw yn Syria mae Assad, a’i dad o’i flaen, wedi llywodraethu dros y werin bobl yn ormesol. Yn Sbaen cafodd y gweriniaethwyr gefnogaeth gan Rwsia a chafodd Franco gymorth gan yr Eidal a’r Almaen. Heddiw mae Syria yn cael cefnogaeth Rwsia ac Iran. Bu erchylltra mawr yn y rhyfeloedd gyda phoenydio, hil-laddiad a pholisi gwleidyddol o lwgu bwriadol. Yn Ebrill 1937 achosodd y bomio di drugaredd ar Guernica filoedd o farwolaethau. Dangoswyd yr erchylltra yma mor effeithiol gan Picasso yn ei lun o’r un enw. Trychinebau fel hyn oedd yn sicrhau empathi’r Cymry, yn enwedig at drafferthion pobl Gwlad y Basg.

Aeth 177 o Gymry i ymuno gyda’r Frigâd Rhyngwladol, rhan fwyaf yn lowyr o dde Cymru ond aeth saith o’r Gogledd hefyd. Rhaid oedd iddynt fynd yn ddirgel oherwydd yr oedd yn anghyfreithlon mynd i ymladd yn Sbaen. Heddiw mae rhai o Brydain wedi eu radicaleiddio i ymuno a’r mudiad ISIS yn Syria.

Roedd ymgyrchu dyngarol yn digwydd yng ngogledd Cymru gyda llawer o weithgaredd yn y Capeli a’r Eglwysi. Bu John Williams Hughes, newyddiadurwr o Farianglas, Môn, yn gweithio gyda Megan Lloyd George ac Eleanor Rathbone i godi arian ar gyfer sefydlu cartref i ffoaduriaid o Wlad y Basg yn Hên Colwyn. Hefyd cododd arian i anfon dau ambiwlans i Sbaen ac aeth i weithio yno yn Valencia a Madrid.




***Berwyn Evans a Rhiannol Lidell***

Wrth orffen ei anerchiad dyfynodd Richard Parry Jones cwpled o’r Awdl gan Hywel Griffiths

*‘O roi’r cof dan glawr cyfyd*
*yr anghofio’n gofio i gyd.’*

Gofynnodd ar ddiwedd ei sgwrs a yw hanes yn ail adrodd ei hun? Beth fydd y gwaddol ar ddiwedd y rhyfela yn Syria ? Barn rhai haneswyr oedd fod y rhyfel cartref yn Sbaen yn rihyrsal am yr Ail Ryfel Byd - a ydym yn gweld rihyrsal am rhyfel byd arall?

Yr wythnos wedyn pan oeddym yn cyfarfod ‘roedd yn ddydd Mawrth Ynyd. Cawsom groeso yng nghartref Dr. Pat Williams i flasu crempogau. Roedd digon i’w fwyta a chawsom noson bleserus iawn. Diolch i Pat am y croeso.

Yn y cyfarfod olaf ym mis Chwefror cawsom gwmni Mr. Berwyn Evans o Lansannan. Rhanodd y noson yn ddwy ran. Yn yr hanner cyntaf dangosdd lyfr yr oedd wedi ei gyhoeddi yn dangos lluniau a sôn am hanes y rhan fwyaf o deuluoedd y cylch. Yn ail hanner y noson bu yn sôn am Blas Dyffryn Aled, sef plasty yn Llansannan a adeiladawyd yn 1717.



***Crempoga***

Ddechrau'r ganrif ddiwethaf Y Fonesig Dundonald a'i theulu oedd perchnogion y plasty ond pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Gyntaf fe gymerwyd y lle drosodd gan y fyddin ac fe'i gwnaethpwyd yn garchar i garcharorion rhyfel. Carchar i uwch swyddogion o'r llynges Almaeneg oedd Plas Dyffryn Aled ac roedd bron iawn i gant o garcharorion yna. Nid oedd bywyd yn rhy galed iddynt yn y plas – gwelsom lun o'r milwyr yn chwarae criced ar y lawnt o flaen y tŷ. Dim ond dwywaith y ceisiodd carcharorion ddianc o'r carchar ond nid aethant yn bell cyn cael eu dal. Wedi'r rhyfel cafodd y Plas ei dynnu i lawr. Noson ddiddorol.

***Crempoga yn ddiddig yn Awelon***



# Cymdeithas Cymry Birkenhead

Un o'n aelodau oedd yn ein diddori ar nos Lun Chwefror 5ed, sef Mr Goronwy Humphreys, Wallasey. Un o Gymry dref honno yw Gron, wedi ei eni a'i fagu yno ac yn aelod ac organydd yng nghapel Rake Lane o 1962 i 2000 pan unwyd gyda Salem Penbedw, i greu capel Seion, ac yno hefyd mae'n chwarae'r organ. Hawdd deall felly mai cerddoriaeth yw ei brif diddordeb ac am "Ganeuon Cymraeg" y sgwrsiodd hefo ni. Mae'r gofynnod (?) yn y teitl yn arwydd at thema'r sgwrs – sef fod amryw o ganeuon ac emyn donnau sy'n honni bod yn Gymraeg, ddim felly o'r gwbl. Trwy recordiau, darluniau, eglurodd Gron sut oedd ei ymchwil wedi ei ddwyn i'r darganfyddiad. Dros flynyddoedd o chwarae emynau yr ysgol Sul a'r capel, a sylwi ar "Alaw Gymraeg" wrthynt a chlywed a gwrando ar gerddoriaeth o bob math, gwelodd berthynas rhyngddynt, a dechreuodd ymchwilio. Sylwodd fod yr un peth yn wir gyda chaneuon "traddodiadol". Enghraifft trawiadol o hyn yw cân boblogaidd Bob Roberts Tai'r Felin, "Mari fach fy nghariad" sydd wedi ei "dwyn" o'r Saesneg "Pretty Polly Perkins" – cân y 'Music Halls' o 1862. Hoffwn feddwl am "Moliannwn oll yn llon" fel cân draddodiadol – ond mae honno yn deilliaw o'r America a'r gân *"The Old Cabin Home"* cân hiraethus talaith Mississippi.

Newidiwch amser yr emyn, dôn 'Olwen' ac fe glywch *'God save the Queeen'*. Rydym i gyd yn gwybod am ganeuon pop yn defnyddio cerddoriaeth glasurol, ond roedd gwrando ar sgwrs Gron yn agoriad llygaid i bob un ohonom. Byddwn yn edrych ar darddiad alawon hoff a chyfarwydd, yn fwy gofalus yn y dyfodol yn sicr. Dyma ddarlith sy'n agos dorau lawer.

Eirwen oedd llywydd y noson, Olwen Gwyn a Kitty ofalodd am y te a Gron ei hun oedd y cyfeilydd.

Roedd yn bleser arbennig croesawu Alun Pari Huws, un o blant Ysgol Sul Penbedw, atom at Chwefror 19eg. Mae amryw ohonom yn cofio teulu Gwyn, Eira a'r plant yn eu dyddiau yma yng Nghilgwri. Coffa da yn arbennig am Eira, mam Alun, a'i gweithgareddau talentog a brwydfrydig ymysg Cymry'r Glannau. Estynwyd ein cydymdeimlad at Alun a Geraint yn eu colled lem.

Teitl sgwrs Alun oedd "Bad Achub Llandudno, ddoe a heddiw". Trwy gydol ei oes mae wedi ymddiddori yn y diwydiant llongau a hanes morwrol ac yn enwedig Hanes y Bad Achub. Bellach ers iddo ymddeol o'i swydd gyda'r banc, mae yn gwirfoddoli gyda Bad Achub Llandudno gan ddal swydd Dirpwy Swyddog lawnsio – sy'n golygu cymryd cyfrifoldeb am alw'r criw a'r cwch allan os oes angen yn ogystal â bod yn rhan o'r tîm sydd yn rheoli'r orsaf.

Trwy ddarluniau, eglurodd y mathau gwahanol o fadau achub sydd ar gael – syndod gweld cymaint – a'u pwrpas; a'r safleodd lle maent ar gael ar arfodir ein gwlad. Clywsom am hanes yr R.N.L.I. o 1824 hyd heddiw a'r newididau mewn cynllun a phwrpas gwahanol fadau. Diddorol oedd gweld bad yn cael ei thynnu gyda cheffylau drwy stryd Mostyn ers talwm. Gwelsom luniau o weithgareddau'r badau yn afon Conwy, ar lannau Môn, a'r môr Iwerydd, gydag ystadegau am yr alwadau a fu arnynt.

Wedi gwrando ar Alun, am ymroddiad a dewrder criw o feibion a merched cyffredin amrywiol, mae ein hedmygedd ohonynt yn fwy nag erioed. Gwirfoddolwyr yw'r criw, yn dibynnu ar haelioni'r cyhoedd a'u hewyllysion. Dim ond nifer fach o'r swyddogion uchaf sy'n cael tâl am eu gwaith yn y Ganolfan yn Dorset, mae gwaith y criw yn amrhisadwy.

Menna oedd llywydd y noson a Mike Storey – un o'n dysgwyr mwyaf galluog gyda chysylltiad â bad achub Hoylake – wnaeth y diolchiadau gwresog. Da oedd clywed fod ein Llywydd Oes, Mrs Mair Rees Jones yn gwella ac yn disgwyl dod adref o'r ysbyty.

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2018. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mai 2018 –** erbyn bore Sul, 1 Ebrill 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Mehefin 2018** erbyn bore Mawrth, 1 Mai 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net

**iii) Rhifyn Gorffennaf 2018 –** erbyn bore Gwener, 1 Mehefin, 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 2 o'r gloch ar ddydd Gwener, 1 Mehefin, 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# Gweithio'n galed yn y Ganolfan

Mawr yw ein diolch i nifer o aelodau Bethel am y gwaith sy'n cael ei wneud i gadw adeilad y Capel mewn trefn. Dyma enghraifft yn y llun diweddaraf o frwdfrydedd tri o'r Pwyllgor Adeiladau yn ceisio atgyweirio y 'roller shutters' yn y Ganolfan.

Gosodwyd blwch post newydd ar ochr giat maes parcio Eglwys Bethel hefyd. Rydym wedi derbyn nifer o lythyrau i'r Eglwys gyda chôd post gwahanol dros y blynyddoedd oherwydd bod gan Heathfield Road bedwar côd post gwahanol!

**Mae ymddangosiad y blwch post yn y safle uchod yn sicrhau ein bod yn medru dal i alw ein Heglwys yn Bethel, *Heathfield* *Road.* Côd post swyddogol yr Eglwys o hyn ymlaen yw *L15* *9EZ.***



*Gweithio ar y 'roller shutters'*



*Blwch post ger y maes parcio*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# Cyngerdd Gŵyl Dewi ym Manceinion 2018

Pleser o’r mwyaf oedd cael ymgynnull yn y Coleg Cerdd ar nos Sadwrn olaf ym mis Chwefror a gwrando ar gantorion ac unawdwyr o Ogledd Cymru. Dau gôr oedd yn gosod sylfaen gadarn i’r noson sef Côr Ger y Ffin o dan arweiniad Mr Geraint Roberts a Chôr Meibion Rhos o dan eu dirprwy arweinydd Mr Kevin Whitley. Ryan Davies, tenor ifanc yn astudio yn y Coleg Cerdd ac enillydd Gwobr Ganu y Gymdeithas Gymraeg yn 2017 oedd yr unawdydd, gyda Michael Davies, Cymro arall o’r Coleg yn cyfeilio iddo. Cawsom ddatganiad swynol ar y piano gan Iwan Owen o Sir Fôn, un sydd wedi ennill mewn llawer i eisteddfod - Llangollen a’r Genedlaethol - ac yn ymddangos yn ein cyngherddau am yr ail dro. Cawsom ddeuawd telynau unigryw gan Aaron Ma a Shimeng Sun, dau sy’n astudio yn y Coleg o dan ofal Eira Lynn Jones. Mae’r ddau yn dod o Beijing ac yn gobeithio mynd a dipyn o alawon Cymru yn ôl gyda hwynt i Tseina. Cawsant dderbyniad cynnes iawn. Daeth y noson i ben gyda’r corau a’r gynulleidfa yn ymuno i ganu ‘Calon Lân’ gyda Geraint yn arwain a Kevin yn cyfeilio wrth yr organ. Diweddglo ardderchog i gyngerdd cofiadwy.



*Iwan Owen wrth y piano*



*Ryan Davies (tenor) a’i gyfeilydd Michael Rhys Davies*



*Aaron Ma a Shimeng Sun - y ddau o Beijing*



*Yr Anthem Genedlaethol. Geraint Roberts, Côr Meibion Rhos, Côr Ger y Ffin, Kevin Whitley wrth yr organ, a'r unawdwyr wrth gwrs.*

## Gŵyl o Ddiolch am 70 mlynedd o Wasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS)

### Sadwrn a Sul, 7-8 Gorffennaf 2018

### Bore Sadwrn 7 Gorffennaf

**yng Nghanolfan y Cymry, Auckland Road, Lerpwl**

ceir Sesiwn yn Gymraeg (bydd cyfieithydd ar gael) o 11.30 i 1.15

**10.30-11.15 –** Darlith gyntaf. Aneurin Bevan yn creu y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Gorffennaf 1948 gan y Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees.

**11.15 i 11.45** – Seibiant i gael lluniaeth ysgafn

**11.45 - 1.15** – Sesiwn o dan ofal Dr. Mari Lloyd Williams, Prifysgol Lerpwl, Dr. Rhys Davies, Ysbytai Gwynedd a Aintree a Dr. John G. Williams yn egluro y newidiadau a gymerodd le mewn meddygaeth o 1948 i 2018.

### Nos Sadwrn am 7.30

**yng Nghapel Eglwys Fethodistaidd, Elm Hall Drive, Lerpwl**

**CYNGERDD** (rhagor o fanylion y tro nesaf).

### Sul, Gorffennaf 8

**Oedfa o Ddiolch am y Gwasanaeth Iechyd** yng Nghapel Bethel, Lerpwl.
<u>Cennad:</u> Parchedig Ddr. Goronwy Prys Owen, Bala.



*Aneurin Bevan*

# BYD A PHOBL A DDIFLANODD O GEFN GWLAD CYMRU

**gan D. Ben Rees**

**GWERTH CEFN GWLAD**

I gymdeithasegydd a fyddai'n dadansoddi Crefydd yng Nghymru mi fyddai pob un o'r paragraffau yn yr ysgrif hon yn gwneud synnwyr fel y byddai i bwy bynnag a fyddai yn paratoi dogefn ar Hanes yr Achos ar gyfer un o enwadau Ymneilltuol. Cefn gwlad oedd asgwrn cefn Ymneilltuaeth. Fel y mae o hyd o ran cryfder yr iaith Gymraeg. Ar raglenni fel *Cefn Gwlad* a *Ffermio* y ceir y sgyrsiau mwyaf graenus trwy gyfrwng ein hiaith a'r rheswm am hynny i raddau helaeth yw fod pawb bron sydd chwe deg oed wedi derbyn y fagwraeth gapelyddol yn ei grym, ac mae y rhai dan yr oedran hwnnw wedi elwa o iaith yr aelwyd. Erbyn heddiw daeth newid mawr i'r bröydd hyn a diflannodd y canlynol

**GWEISION FFERMYDD**

Dyma ddosbarth o bobl sydd wedi diflannu ym mhob plwyf gwledig. Yn ardal Cefnddwysarn ar un adeg (wel, yn nechrau yr ugeinfed ganrif) yr oedd ugain o weision a'r oll ohonynt yn aelodau o gapel y Presbyteriaid Cymraeg. Sawl gwas ffarm sydd yn aelodau heddiw yng nghapel Cefnddwysarn, capel sydd heb ofal gweinidog ar hyn o bryd. Yn Ynys Môn y gwelwyd y diflanniad pennaf fel y dangosais yn y llyfrynnau a gyhoeddwyd ar ol darlithiau Capel Tŷ Rhys, Llangoed ar gyflwr y grefydd Gristnogol ar yr Ynys.

**GWEINIDOGION HIRHOEDLOG**

Dyma ddosbarth arall sydd wedi lleihau o ran nifer ac yn fwy fyth y gweinidogion sydd yn aros yn yr un ofalaeth am ddeugain mlynedd, a mwy. Rhaid cyfaddef mai nid yng nghefn gwlad yn unig y bu y newid hwn ond yn y dinasoedd a'r ardaloedd diwydiannnol. Ond pobl o gefn gwlad oedd bron bob un o'r gweinidogion hyn mewn ardal fel Glannau Merswy. Dyna fu'r stori yn ddiethriad: y Parchedigion J Peron Jones yn nhref St Helens am 40 mlynedd; Parchedig R. J. Môn Hughes ym Mhenbedw am 37 mlynedd ond arhosodd yno hyd ei farwolaeth yn mis Chwefror 2007, sef cyfanswm o 58 o flynyddoedd, Parchedig O. J. Owen, Rock Ferry 44 mlynedd a'r Parchedig J. D. Evans, Garston am 42 mlynedd. Ond ceid yr un ffenomenon yng nghefn gwlad, yn arbennig y cefn gwlad a adnabyddwn ni fel Dwyrain Meirionnydd. Bu Edward Williams yn weinidog Bethel, Cynwyd am 57 o flynyddoedd, a John Howell Hughes am 40 mlynedd lawn mewn dwy ofalaeth sef Ysbyty Ifan a'r Bala. Treuliodd Evan Lynch 42 mlynedd fel gweinidog llawn amser yn Carrog a Glyndyfrdwy a llawer mwy fel gweinidog gwirfoddol a bu William Jones yng ngofalaeth Parc a Moelgarnedd am 42 o flynyddoedd a Seth Pritchard a weinidogaethodd ym Moeladda o 1925 i 1961, sef 36 mlynedd.

**OEDFAON DIWYGIADOL**

Mae hiraeth arnom yng nghefn gwlad, yn ôl a glywaf pan af yno i wasananaethu ar y Sul am oedfaon sy'n dwysbigo'r aelodau a ddaeth i foli, gwrando, a gweddio yn arbennig pan ddaw yr enwadau a'i Cymanfaoedd a'i Sasiynau. Sonia y llenor Islwyn Ffowc Elis am oedfa felly yn Sasiwn Corwen yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig R. J. Jones, Porth Amlwch, a dewisodd fel testun o'r bumed bennod o lyfr Hosea, adnod 6. Dyma gyffes y llenor: 'Yr oedfa fwyaf ysgytiol y bum i ynddi erioed oedd honno yn Sasiwn Corwen 1943, pan oeddwn yn hogyn ysgol... Roedd y Capel a'r festri'n orlawn, a gweinidogion ac eraill yn eistedd ar risiau'r pulpud. Fe drodd amryw i weddïo ac i wylo cyn diwedd y bregeth. Dyna'r peth agosaf a welais ac a glywais i'r Diwygiad y soniodd fy rhieni gymaint amdano.'

**GWEINIDOG YN MEDDU GRADD**

Roedd hi'n bwysig rhwng 1910 a 1970 yn hanes llawer o gapeli Cymru fod y Gweinidogion yn meddu gradd. Roedd y gosodiad yn wirionedd. Capel felly oedd Capel Tegid y Bala, o'r 10 gweinidog yn ystod yr ugeinfed ganrif yr oedd 7 yn raddedigion a dau ohonynt yn weinidogion ar eglwysi Cymraeg yn ninas Lerpwl, cyn symud i weinidogaethu yn y Bala sef y Parchedigion Daniel Davies a D. Francis Roberts.

Dywedwyd hynny yn gyhoeddus mewn Cyfarfod Misol yn y Bala, Ionawr 1936, a dyma'r dyfyniad perthnasol: 'ond buom ni yn llwyddiannus fwy nag unwaith i ddenu gweinidog o Lerpwl atom ni' Pwy a ddywed nad yw eglwys Tegid y Bala yn bwysig?'

**DIRWEST**

Rhyfedd meddwl heddiw pa mor bwysig ar un adeg oedd dirwest yng ngolwg arweinwyr ac aelodau capel pob enwad yng Nghymru. Gwyddom i David Lloyd George fwrw ei brentisiaeth yn Eifionydd a Meirionnydd fel areithydd dirwest, er ei fod ar y slei, yn diota ychydig ei hun! Ond yr oedd arweinwyr dirwest fel Dr John Thomas, arweinydd yr Annibynwyr yn Lerpwl yn gweld dyfodol iddo fel cefnogydd y crwsad. Yr oedd ardaloedd yng Nghymru yn ganolfannau dirwest fel Beddgelert, Llangernyw, Pencaenewydd a Bryneglwys. Penllanw ymdrechion yr ardaloedd hyn oedd llwyddo i gau'r tafarnau yn gyfangwbl. Bu dathlu enfawr ymhlith Ymneilltuwyr Bryneglwys ger Corwen pan gaeodd tafarn 'The Wild Boar' yn 1911.

**GAIR I GLOI**

Gallaf enwi llu o weinidogion eraill a fu yn fugeiliaid yr ardaloedd diarffordd ynghyd a blaenoriaid/diaconiaid, athrawon Ysgol Sul yn meddu ar ddoniau i gyfleu breintiau'r efengyl mewn ffyrdd dealladwy. Cefais weinidog felly yn Llanddewibrefi, y Parchedig John Ellis Williams. Arhosodd yng nghapel Bethesda am ddeugain mlynedd bron. Yr oedd ynŵr cyhoeddus, diwylliedig ac ymroddgar. Ei flaenoriaethau i ni'r plant yn y pedwar degau oedd yr Ysgol Sul, Cwrdd Plant, Seiat a Dosbarth Beiblaidd. Magodd do o weinidogion a blaenoriaid a wasanaethodd ardaloedd eraill fel capeli Cymraeg Llundain. Yn anffodus gallaf ychwanegu y sefydliadau a nodais at yr hyn a giliodd a diflannu fel Seiat dweud adnod a'i thrafod, Dosbarth Beiblaidd a Chwrdd Plant a elwid *Band of Hope*. Gwyn byd y plant hynny sydd yn dal i gael Ysgol Sul ar bnawn Sul yng nghefn gwlad, er na wn i am un fy hun. Efallai y gallwch chwi sydd yn darllen yr ysgrif hon roddi gwybod? Byddwn yn falch o gael yr wybodaeth.

## *Gair i'r Tanysgrifwyr*

***Y rhifyn nesaf fydd yr un olaf am y flwyddyn 2017/18 ac a wnaiff y rhai sydd heb anfon tâl am Yr Angor wneud hynny erbyn 1 Mai 2018.***

***Diolch am y gefnogaeth gref.***

# ADOLYGIAD

D. Ben Rees a Lawrence Holden,
**O LANRWST I LERPWL: BYWYDAU A CHYFRANIADAU DAVID ROBERTS (1806-1886) A'I FAB, JOHN ROBERTS (1835-1894).**

Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 2018.
89 tt. £10.

Mae'r cyhoeddiad bach dwyieithog, hynod hylaw hwn, sydd yn adlewyrchu clod mawr ar gwmni Cyhoeddiadau Modern Cymreig, yn seiliedig ar ddigwyddiad a gynhaliwyd o fewn Canolfan Gymraeg a chapel Presbyteraidd Lerpwl ym mis Mehefin 2016, achlysur a ddenodd nifer fawr iawn o ddisgynyddion David Roberts (1806-86), rhai a deithiodd yno o nifer fawr o leoliadau ar draws y Deyrnas Unedig. Disgrifir yr achlysur hwn yma gan y Dr Arthur Thomas. Mae'r llyfryn hefyd yn cynnwys testunau estynedig darlithiau ysgolheigaidd nodedig a draddodwyd ar yr un adeg gan y Dr D. Ben Rees a'r Dr Lawrence Holden.


Mewn ysgrif a luniwyd yn arbennig o grefftus mae'r Dr Rees yn cynnig arolwg ar fywyd a chyfraniad unigolyn na chafodd rhyw lawer o sylw hyd yma sef David Roberts (1806-86), brodor o Lanrwst a brofodd dröedigaeth grefyddol hollol wefreiddiol ym 1818, gan fudo i Lerpwl ar ryw adeg rhwng 1822 a 1824 lle daeth i gysylltiad â nifer o eneidiau cytûn, unigolion a'i galluogodd i deimlo'n hollol gartrefol yn eu plith. Mae'r ysgrif ddarllenadwy hon, sydd yn seiliedig ar ymchwil fanwl, yn edrych ar yrfa Thomas fel marsiandwr coed a ffurfiodd bartneriaeth tymor-hir gyda William Jones ym 1848. Roedd ei gyd-berthynas gyda'i weithlu, dros 400 ohonynt yn Lerpwl a Phenbedw erbyn y flwyddyn 1875, yn anghyffredin o hynaws.

Mae darn nesaf yr ysgrif yn edrych ar gyfraniad Roberts o fewn Capel Bedford Street lle daeth yn flaenor ym mis Mawrth 1838 a, gan weithio mewn partneriaeth agos gyda'r gweinidog yno y Parch Dr David Saunders, gwelodd yr aelodaeth yn tyfu'n raddol i'r nifer ryfeddol o 952 unigolyn dros y blynyddoedd. Fel y daeth yn filiwnydd ei hun, roedd David Roberts yn benderfynol o arddangos i'r ddinas gyfraniad y Cymry a chwaraeodd ran amlwg yn sefydlu Capel Princes Street yn y ddinas, a bu'n hael ei gyfraniad at ddatblygiad addysgol dinas Lerpwl.

Ymhlith ei ddiddordebau niferus roedd ei frwdfrydedd tymor hir ynghylch emynau William Williams, Pantycelyn (1717-91), a'i gyfrifoldebau lu o fewn Cymdeithas y Genhadaeth Gartref. Cyflwynwyd tysteb iddo, arwydd o'r parch a'r edmygedd a oedd iddo, ym mis Mawrth 1886, ond o fewn ychydig fisoedd aeth i gyfarfod â'i Arglwydd. Ym marn y Dr Rees roedd Roberts yn un o'r lleygwyr mwyaf nodedig i wasanaethu ei enwad drwy gydol ei hanes.

Yna mae Dr Rees yn ystyried bywyd a gyrfa'r mab hynaf sef John Roberts, un a anwyd yn Lerpwl ym 1835, ac mae'n cynnig arolwg bywiog o'i yrfa fel dyn busnes, gwleidydd a blaenor o fewn ei eglwys. Etholwyd ef yn AS Rhyddfrydol dros Fwrdeistrefi Fflint a, fel cefnogwr brwd i'r mudiad dirwest, bu'n flaenllaw o fewn yr ymgyrch i basio'r ddeddf i gau'r tafarndai ar y Sul ym 1881. A'i olynydd fel yr AS dros yr etholaeth oedd neb llai na John Herbert Lewis.

Yna mae'r Dr Lawrence Holden, ffigwr cyfreithiol o fri arbennig yn Lerpwl ac yn wir tu hwnt, yn mynd ati i gyflwyno, a hynny yn Saesneg yn unig, hanes disgynyddion David Roberts a oedd yn




cynnwys dau frawd sef David Trevor Roberts a'i frawd John Herbert Roberts, yr Arglwydd Clwyd (1863-1955), sef y gwleidydd amlwg a etholwyd yn AS Rhyddfrydol dros Orllewin Dinbych ym 1892 ac a gyhoeddodd cyfrol hynod o ddadlennol sef Memoirs by Lord Clwyd ym 1937. Fel y dangosir yn glir yn y fan hon, roedd ei yrfa wleidyddol yn cyd-redeg yn llyfn gyda gyrfa'r cyfoeswr mwy enwog iddo sef Syr John Herbert Lewis (1858-1933).

Gwasanaethodd Roberts fel cadeirydd neu fel ysgrifennydd i nifer fawr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru'r adeg hon, a daeth i ymddiddori'n ddirfawr mewn materion a themâu'n ymdrin ag India, gan gefnogi'n frwd ymdrechion y cenhadon Cymreig ar yr is-gyfandir llawn dirgelion. Drwy gydol y blynyddoedd roedd ganddo gysylltiadau cryfion gyda theulu adnabyddus Caine. Rhoddir ychydig o sylw hefyd yma i ddiddordebau masnachol a busnes Roberts ynghyd â'i fywyd teuluol.

I gloi'r gyfrol cawn ein hannog i ddarllen hanes cyffrous Gŵyl uchelgeisiol David Roberts a drefnwyd gan Gymdeithas Treftadaeth Gymreig Glannau Mersi. Roedd yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau dwyieithog o fri a drefnwyd dros benwythnos 11-12 Mehefin 2016. Yn eu plith roedd hanes hynod ddiddorol adeiladu capel Mynydd Seion, Abergele a chapel Princes Road, Lerpwl.

Cynhyrchwyd y gyfrol fach hon i'r safonau uchaf a cheir ynddi nifer o ffotograffau hiraethlon a deniadol, yn fwyaf arbennig y portreadau o unigolion (er bod rhai ohonynt yn edrych ychydig bach yn fechan ar y dudalen). Mae amryw ohonynt yn eiddo i aelodau o deulu Roberts. Mae'r llyfryddiaeth fer o'r ffynonellau print a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil o ddefnydd mawr inni hefyd.

*J. Graham Jones*


# Y CALFINYDD CYFLAWN: BOBI JONES (1927-2017)

Un o freintiau godidocaf fy mywyd oedd cael cyfrif Bobi yn un o'm ffrindiau pennaf yn ddeallusol ac ar lwybr Calfiniaeth a chonsarn efengylaidd am bobl a'r byd. Hoffwn fynegu fy ngwrogaeth yn yr ysgrif-goffa hon i un a fu yn garedig ei ysbryd ac yn barod bob amser ei gymwynas gyda'i ysgrifau i bapur bro *Yr Angor* (Lerpwl a Manceinion). Yn y bymtheg mlynedd diwethaf bu'r ddau ohonom ar drywydd yr hanfodion bethau, Duw a'i Fab Iesu Grist, yr Ysgrythurau a hanes Calfiniaeth Gymraeg a'n meddwlgarwch o Dr Martyn Lloyd Jones a'i ddawn gyfathrebu. Ond cyn dechrau ar y sesiynau dwys, tyngedfennol hyn byddai ei briod hawddgar wedi paratoi lluniaeth i'r ddau ohonom, ugain munud o bryd bwyd a awr a hanner o drafod ein cred yng ngoleuni tragwyddoldeb. Yr oedd mor gyfarwydd a'r byd ysbrydol, gwell o lawer na aml un na enwaf sydd yn credu ei bod yn gwybod hyd a lled a dyfnder y dirgeledigaethau oll! Ac yna ar ôl dwy awr ffarwelio a'r ddau ohonynt dros dro. Bu'r ddau yn briod am 65 o flynyddoedd bron ac yn y garwriaeth gynnar honno fe ddaeth Bobi yn ffrind da i Waldo, un arall o'r cewri llenyddol, yn Sir enedigol ei anwylyd.

Yr oedd y teulu dynol yn bwysig iddo a hefyd teulu Duw a theulu'r Iaith Gymraeg, y dysgwyr. Cyfranodd ef gymaint i'r dasg o gyflwyno'r iaith i ddysgwyr. Dibynais am 22 mlynedd fel tiwtor ar ddosbarthiadau Cymraeg yn Lerpwl, ar ei gynnyrch ef a chael llwyddiant trwy hynny. Cymwynas dawel arall o'i eiddo. Credaf fod bopeth a

(parhad ar dudalen 11)

luniodd ac a greodd ac a gyflwynodd yn perthyn i'r gwyrthiol. Yr oedd ef yn wyrth ei hun. Cynnyrch aelwyd Saesneg yng Nghaerdydd yn dod yn un o ffigyrau pwysicaf i lenydda yn yr iaith Gymraeg. Dysgwr yn dod yn Bencampwr. Ef oedd yn cynrychioli Cymru i'r byd gan i'w gerddi gael ei cyfieithu i'r Saesneg. Dewisodd Gymraeg ac nid Ffrangeg ar gyfer lefel O. Llyncodd holl hanes llenyddiaeth gymraeg fel ei eilun mawr Saunders Lewis. Yr oedd yn well na *google*! Ac yn ei swydd gyntaf beth ddigwyddodd, cael ei achub fel pob diwygiwr mawr, ei ail-eni fel Pantycelyn, Howell Harris, Ann Griffiths, R. Geraint Gruffudd (ffrind calon iddo) a'i ŵyr ei hun sydd yn gweinidogaethau yng Ngwent. Blwyddyn yn ôl cadwn Ŵyl Diolchgarwch yng Nghapel China Strret, Llanidloes lle y daeth Crist i'w galon i fyw, ac offrymais weddi am y digwyddiad hwnnw a wnaeth gymaint o wahaniaeth i lenyddiaeth Gristnogol Gymraeg. Heriodd ei gyd gapelwyr Laodeciaidd oedd i'w ganfod yn y tir yn 1956 a'i cythruddo a'i gwefreiddio gyda'i gerddi anghyffredin. Yr oedd llenyddiaeth Gymraeg ar ei hennill eto. Braf fel myfyriwr yn Adran Addysg Coleg y Brifysgol, Aberystwyth oedd ei groesawu ef yn ddarlithydd. Cawsom orig yn ddiweddar i drafod y



darlithwyr gwych oedd yn yr Adran pan oedd yr Athro Idwal Jones wrth y llyw. Talodd deyrnged wych i Idwal fel un a baratodd y ffordd i Dr Jac L. Williams a'r ddysg ddwyieithog a fu o fudd mawr i'r deffroad a gawsom. Ar ôl mynd yn Weinidog deuthum i adnabod ewythr iddo yn Mhenrhiwceibr, un o ddeiliaid y chwith fel ei dad-cu, y Marcsydd mwyn.

Gwelwn ef yn y chwe degau pan ddeuwn i bregethu yng Nghapel Salem, Aberystwyth lle y codwyd ef yn flaenor. Ond gwelwn oddiwrtho nad oedd yn gwbl gysurus gyda'r Presbyteriaid oedd yn brysur anghofio Calfiniaeth. Gadawodd y gwersyll ag ymuno a'r Eglwys Efengylaidd lle bu yn hanesydd Calfiniaeth o fewn y cylchgrawn Efengylaidd. Gwnaeth i lawer ohonom ail ystyried y sefyllfa ac yn arbennig ei gyfrol sylweddol, *Llên Cymru a Chrefydd* (1977) A minnau yn drachtio holl gynnyrch Dr Owen Thomas nid rhyfedd i'r ddau ohonom glosio at ein gilydd ac yn yr unfed ganrif ar hugain daeth seiadau Nantydderwen, Heol Llanbadarn yn bwysig dros ben. Tyfodd y cyfeillgarwch a'r brawdgarwch Cristnogol. Fel y soniais wrth ei anwyliaid y noson a gefais yng nghwmi y weddw, y mab a'r ferch, dau ddiwrnod ar ôl iddo dderbyn yr alwad nefol, y mae gennym gymaint i ddiolch amdano, ac am iddo rhoddi y flaenoriaeth i'w Waredwr, yr Arglwydd Iesu Grist. Soniwch am Iesu ac nid Bobi oedd ei gri. Daw goleuni newydd bob tro y darllenaf ei waith. Saif yn yr olyniaeth sydd yn ein harwain yn ôl i Thomas Jones, Dinbych, Pantycelyn, Morgan Llwyd, Dafydd ap Gwilym, ie i'r canrifoedd cynnar.

***D. Ben Rees.***

***Crwydro Cymru***

# CYLCH LLANBERIS

Y mae plwyf Llanberis yn un go fawr ac wedi ei leoli ynghanol mynydd-dir yr Wyddfa, a gwasgwyd y mwyafrif o'r boblogaeth i dref Llanberis. O'r dref yma y mae'r daith gyffrous i ben yr Wyddfa'n cychwyn ac oddi yma hefyd yr â'r daith ramantus i Gapel Curig, gyda'r mynyddoedd ar bob ochr. Ar wahân i Lyn Padarn, y llyn pwysig arall yn yr ardal ydyw Llyn Peris.
Cyn ymadael, gellir ymweld hefyd â chastell Cymraeg, sef Castell Dolbadarn. Nid castell a sefydlwyd gan y Brenin Edward y Cyntaf yw hwn ond astell a adeiladwyd gan y Cymry, fel castell Dolwyddelan a Chastell y Bere.
Gwelwyd newid mawr yn y cylch hwn. Peidiodd y chwareli enfawr a daeth y cylch i ddibynnu ar ffatrioedd diwydiannau ysgafn, y diwydiant hamdden a thwristiaeth. Cadwodd Llanberis ei Gymreictod yn dda ac y mae cryn dipyn o ddiwylliant yn aros yn y cylch o hyd. Ym myd canu ysgafn er enghraifft, cafwyd cyfraniad nodedig y grwp 'Hogiau'r Wyddfa'.



# *Arolwg o'r Cymry alltud ifanc yn Lerpwl*

***gan Chris Windsor***




Ar ôl byw yn Lerpwl am bedair blynedd, y flwyddyn yma yw fy mlwyddyn olaf yn y ddinas. Felly rydw i wedi penderfynu ysgrifennu am fy mhrofiad i o'r Gymdeithas Gymraeg yn Lerpwl ac effaith y Gymdeithas ar fy amser i yn y ddinas anhygoel ac anfarwol hon.

Rwyf yn dod o dref fechan yng nghanol Cymru o'r enw Y Trallwng, o gymharu â'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn y blynyddoedd o flaen ein dosbarth ni yn yr ysgol, roedd fy mlwyddyn i hefo un-ar-ddeg plentyn Cymraeg iaith gyntaf yn cael ei galw yn griw 'mawr' o siaradwyr Cymraeg!!! O ganlyniad, roedd cyfleoedd i mi siarad Cymraeg yn brin. Wrth edrych yn nôl, mae fy Nghymraeg wedi gwella yn hynod ers symud i fyny i Lerpwl sydd yn rhyfedd ac annisgwyl. Mae'r gymdeithas wedi bod yn siawns i mi gael manteisio ar y profiad o symud i ddinas fawr yn Lloegr yn ogystal a theimlo fel rhan o gymuned Gymraeg fel Neuadd Pantycelyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wedi bod yn gyfle arbennig i mi greu ffrindiau newydd dros Gymru a rhoi cyfle i mi ddatblygu fy Nghymraeg ymellach na TGAU ysgol uwchradd.

Clywais am Gymdeithas Gymraeg Lerpwl am y tro cyntaf yn wythnos gyntaf fy ail flwyddyn yma yn Lerpwl, gan fachgen o Ogledd Cymru a oedd yn ffrind i ffrind. Ar yr pryd roedd y Gymdeithas yn bodoli drwy dudalen *Facebook* a thua 25 person yn mynychu y crôls. Roedd mor anhygoel siarad gyda Chymry o'r run oedran a chael defnyddio fy Nghymraeg. Tua diwedd y flwyddyn academidd roedd y nifer a oedd yn mynychu y crols yn cwympo lawr i tua 10 person. Felly, cawmson gyfarfod er mwyn trafod sut i wella'r Gymdeithas a profiadau ein haelodau sef myfyrwyr Cymraeg Lerpwl. Penderfynwyd i greu pwyllgor i'r Gymdeithas a rhannu'r gwaith o drefnu'r Gymdeithas rhyngddom. Ein problem gyntaf oedd sut i godi ymwybyddiaeth y Gymdeithas er mwyn cynyddu nifer aelodau, gan mai drwy ddamwain a lwc yn unig y clywais i am fodolaeth y grŵp. Wedi cysylltu gyda phrifysgolion Lerpwl er mwyn cael hawl i roi stondin yn y ffeiriau 'freshars' sydd yn arbennig ar gyfer disgyblion y flwyddyn gyntaf. Cawsom dros 80 o aelodau newydd yn ymuno gyda'r grŵp '*Facebook*'.

Rydym fel Cymdeithas yn cwrdd yn anffurfiol neu am beint neu ddau wrth wylio Cymru yn chwarae gemau pêldroed neu rygbi. Cynhyrchwyd amserlen o ddigwyddiadau ac amseroedd 'pub crôls' y Gymdeithas am y flwyddyn er mwyn cael mwy o drefn a gallu gadael ein haelodau i wybod mewn digon o bryd. Fe drefnais gytundeb gyda bar 'Walkabout' ar gyfer safle ar gyfer cynnal digwyddiadau, gwylio gemau rygbi a gemau ar ddechrau crôl er enghraifft.

Cawsom ddechrau anhygoel y flwyddyn diwetha (blwyddyn academaidd 2016-2017) efo dros 80 myfyriwr yn ymuno â ni a'r crôls a gwisgo dillad fansi wrth fynd o amgylch tafarndai yn Lerpwl e.e. crol teulu (gwisgo fel Neiniau, Teidiau, Mamau, Tadau a babis), crôl llytheryn cyntaf eich enw (Chris Coleman dewis eglur i mi – gweler y llun) a chrôl dillad afiach (megis bagiau bin).

Yn ogystal a rhannu delystwyddau rhwng aelodau y pwyllgor er mwyn galluogi mynd a dros 40 o fyfyrwyr i Ddawns Rhyng-gol ac yr Eisteddfod rhyng-golegol (cawsom drydydd allan o bum prifysgol yn curo Caerdydd!). Aeth criw i Gaeredin flwyddyn diwetha ac mae criw yn mynd i Ddulyn eleni i wylio tîm Cymru yn chwarae rygbi yn ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Cymdeithas Gymraeg Lerpwl yw'r Gymdeithas Gymraeg o fyfyrwyr fwyaf tu allan i Gymru.

Yn bersonol, rydw i mor falch hefo sut mae'r Gymdeithas Gymraeg wedi tyfu ac mor ddiolchgar i bawb sydd wedi ein cefnogi sydd yn cynnwys y myfyrwyr, y pwyllgor, holl ddarllenwyr 'Yr Angor' a Chapel Bethel, Lerpwl yn arbennig. Byddaf yn drist iawn yn gadael Lerpwl mis Medi, ond wna i byth anghofio y ffrindiau newydd dwi di wneud trwy fod yn rhan o'r gymdeithas. Byddaf yn gadael gydag atgofion melys.

Er fod rhai blynyddoedd academaidd y Gymdeithas yn fwy llwyddiannus nac ei gilydd, gobeithio y gellir cadw y Gymdeithas i fynd am flynyddoedd i ddod!

***[Diolch i Chris Windsor o Adran Astudio Busnes ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl am yr ysgrif ddifyr hon, ac i Gwenno Dafydd sydd yn gofalu am Dudalen y Myfyrwyr – Gol.)***

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*